# 2026

a gynhelir yn

**Neuadd y Plwyf, Llandegfan**

**Dydd Sadwrn, 4 Gorffennaf**

**Bore/Prynhawn am 11:00 o’r gloch**

**Mynediad: £4.00; Plant 50c**

**Nos Sadwrn am 5:30 o’r gloch**

**Mynediad £5.00; Plant 50c**

*Bydd lluniaeth ysgafn yn unig ar gael.*

**SWYDDOGION**

Aled Jones - Cydlynydd

Alun Roberts - Trysorydd

Ann Coleman - Ysgrifennydd Cerdd

Helen Davies - Ysgrifennydd Llên a Llefaru

Angela Ungoed Hughes - Ysgrifennydd Celf

Greta Stuart - Cynrychiolydd yr Ysgol Gynradd

J. Eirian Davies - Prif Stiward

**Ann Coleman,**
**21 Bron Haul,**
**Llandegfan**
**Ynys Môn.**
**LL59 5YF**
**01248 716289**

**Helen Davies,**
**7 Cae**
**Ffynnon,**
**Llandegfan,**
**Ynys Môn.**
**LL59 5PR**

**BEIIRNIAID**

| | |
|---|---|
| **Cerdd, Offerynnol:** | Ceren Lloyd, Caernarfon**.** |
| | Osian Gwynn, Bangor. (Nos yn unig). |
| **Cerdd Dant:** | Ceren Lloyd. |
| **Llefaru ac Alaw Werin:** | Siwan Llynor, Porthaethwy. |
| **Llên:** | Gerwyn Wiliams, Caernarfon. |
| **Cyfansoddi Cerdd:** | Beti Rhys, Gerlan, Bethesda. |
| **Celf:** | Angela Ungoed-Hughes a Helen Zalot. |

| | |
|---|---|
| **CYFEILYDDION:** | Tim Ward, Llanberis. |
| | Ann Peters Jones, Bodedern. |

.

**ARWEINYDDION:**

Dewi Hood, Huw Edward Jones, Arwyn Williams,
Rhian Medi, Aled Jones, Gary Pritchard.

**LLYWYDD:** **Edward Morus Jones , Llangristiolus.**

# Cystadlaethau Llwyfan Bore/Prynhawn

**Mae holl Gystadlaethau Oed Cynradd yr Eisteddfod yn Hunanddewisiad.**

**Cyflwynir Medal i enillydd pob cystadleuaeth Oedran Cynradd.**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Unawd Dosbarth Derbyn neu iau. | Gwobrau: £3; £2; £1. |
| 2. | Llefaru Dosbarth Derbyn neu iau. | Gwobrau: £3; £2; £1. |
| 3. | Unawd Bl.1 a 2. | Gwobrau: £3; £2; £1. |
| 4. | Llefaru Bl.1 a 2. | Gwobrau: £3; £2; £1. |
| 5. | Parti Unsain Bl.1 a 2. | Gwobrau: £12; £8; £4. |
| 6. | Unawd Bl.3 a 4. | Gwobrau: £4; £3; £2. |
| 7. | Llefaru Bl.3 a 4. | Gwobrau: £4; £3; £2. |
| 8. | Unawd Bl.5 a 6. | Gwobrau: £5; £4; £3. |
| 9. | Llefaru Bl.5 a 6. | Gwobrau: £5; £4; £3. |
| 10. | Unawd Alaw Werin Bl.6 ac iau. | Gwobrau: £5; £4; £3. |
| 11. | Unawd Cerdd Dant Bl.6 ac iau. | Gwobrau: £5; £4; £3. |
| 12. | Canu Emyn Bl.6 ac iau. | Gwobrau: £5; £4; £3. |
| 13. | Llefaru Dysgwyr Bl.3 i 6. | Gwobrau: £5; £4; £3. |
| 14. | Unawd, deuawd neu driawd offerynnol, gan gynnwys y piano Bl.6 ac iau. (i rai yn eu blwyddyn gyntaf o hyfforddiant). Perfformiad dim hwy na 3 munud.. (Gweler Amod 7). | Gwobrau: £5; £4; £3. |
| 15. | Unawd Piano Bl.6 ac iau: perfformiad dim hwy na 3 munud.. | Gwobrau: £5; £4; £3. |

16. Unawd ar unrhyw offeryn cerdd ac eithrio'r piano Bl.6 ac iau. Perfformiad dim hwy na 3 munud. (Gweler Amod 7). Gwobrau: £5; £4; £3.

17. Parti Unsain/Deusain Bl.3-6. Gwobrau: £12; £8; £4

18. Deuawd (gan gynnwys deuawd Cerdd Dant) Bl.6 ac iau. Gwobrau: £12; £8; £4.

19. Grŵp Llefaru/Cyflwyniad Llafar Bl.6 ac iau (6-12 mewn nifer). Gwobrau: £12; £8; £4.

20. Perfformio Golygfa Bl.6 ac iau. 2-4 mewn nifer. Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio'r llwyfan. Gwobrau: £12; £8; £4.

21. Band/Grŵp Offerynnol Bl.6 ac iau. (Perfformiad dim hwy na 3 munud.) Gwobrau: £12; £8; £4.

***Cyflwynir cwpan (i'w chadw am flwyddyn) am y perfformiad mwyaf addawol yn yr Oed Cynradd.***

## Cyfarfod Nos

1. Unawd Bl.7, 8, 9 Hunanddewisiad. Gwobrau: £10; £8; £6.
2. Unawd Cerdd Dant Bl.7, 8, 9. Hunanddewisiad. Gwobrau: £10; £8; £6.
3. Unawd Alaw Werin Bl.7, 8, 9. Hunanddewisiad. Gwobrau: £10; £8; £6.
4. Unawd ar unrhyw offeryn cerdd yn cynnwys y piano, Bl.7,8,9. Hunanddewisiad na chymer fwy na 5 munud i'w berfformio. (Gweler Amod 7) Gwobrau: £10; £8; £6.
5. Llefaru Bl.7, 8, 9. Hunanddewisiad. Gwobrau: £10; £8; £6.
6. Unawd Bl.10 a than 19 oed: Hunanddewisiad. Gwobrau: £12; £10; £8.
7. Unawd Cerdd Dant Bl.10 a than 19 oed. Hunanddewisiad. Gwobrau: £12; £10; £8.
8. Unawd Alaw Werin Bl.10 a than 19 oed. Hunanddewisiad. Gwobrau: £12; £10; £8.
9. Unawd ar unrhyw offeryn cerdd yn cynnwys y piano, Bl.10 a than 19 oed. Hunanddewisiad na chymer fwy na 7 munud i'w berfformio. (Gweler Amod 7). Gwobrau: £12; £10; £8.
10. Llefaru Bl.10 a than19 oed. Hunanddewisiad .Gwobrau: £12; £10; £8.
11. Unawd dan 25 oed. Hunanddewisiad. Gwobrau: £25; £20; £15
12. Perfformiad o gân Sioe Gerdd dan 25 oed: Unrhyw unawd allan o Sioe Gerdd heb fod yn hwy na 5 munud, i'w chanu yn y Gymraeg. (Gweler Amod 7). Gwobrau: £20; £15;£10.

13. Unawd ar unrhyw offeryn cerdd yn cynnwys y piano, dan 25 oed. Hunanddewisiad na chymer fwy na 7 munud i'w berfformio. (Gweler Amod 7) Gwobrau: £25; £20; £15.

14. Llefaru Agored. Hunanddewisiad na chymer fwy na 5 munud i'w gyflwyno. Gwobrau: £40; £30; £20.

15. Unawd Alaw Werin Agored: Hunanddewisiad. Gwobrau: £20; £15; £10.

16. Unawd Cerdd Dant Agored: Hunanddewisiad. Gwobrau: £25; £20; £15.

17.. Canu Emyn draddodiadol neu gyfoes i rai **dan** 50 oed. Hunanddewisiad. Caniatéir canu i gyfeiliant unrhyw offeryn. Gwobrau: £20; £15; £10.

18. Canu emyn draddodiadol neu gyfoes i rai **dros** 50 oed. Gwobrau: Cwpan (i'w chadw am flwyddyn) a £20; £15; £10.

19. Unawd Gymraeg Agored: Gall yr Unawd fod yn un o'r Hen Ganiadau. Hunanddewisiad. Gwobrau: £30; £25; £15.

20. Her Unawd Agored: Hunanddewisiad allan o Opera, Lieder neu unrhyw Waith Crefyddol i'w chanu yn y Gymraeg neu'r iaith wreiddiol. Gwobrau: Cwpan (i'w chadw am flwyddyn) a £40; £30; £20.

21. Cystadleuaeth ar gyfer **Siaradwyr Newydd/Dysgwyr**. Perfformio darn llafar (rhyddiaith neu farddoniaeth) neu ganu unawd. Gwobr: Cwpan (i'w chadw am flwyddyn) a £20; £15; £10.

22. Monolog Agored. Cyflwyno dau ddarn sy'n gyferbyniol. Caniatéir hyd at 7 munud ar gyfer y cyflwyniad cyfan yn cynnwys paratoi a chlirio'r llwyfan. Gwobrau: £40; £30; £20.

23. Deuawd neu Ensemble Lleisiol, 10-26 oed, rhwng 2 ac 8 mewn nifer. Hunanddewisiad na chymer fwy na 4 munud i'w berfformio, yn ddigyfeiliant neu gyda chyfeiliant.Geiriau Cymraeg. Gwobrau: £30; £20; £10.

24. Sgen ti dalent? Agored. (Gweler manylion y gystadleuaeth yng nghefn y rhaglen). Gwobrau: £30; £20; £10.

25. Grŵp Llefaru Agored: Hunanddewisiad. (Gweler Amod 9) . Gwobrau: £50; £30.

26. Côr (Cymysg/Meibion/Merched) heb fod yn llai nag 20 mewn nifer, i gyflwyno rhaglen o gerddoriaeth hunanddewisiad, heb fod yn hwy na 10 munud, ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymro. Gellid hefyd ddefnyddio trefniant o alaw werin Gymreig gan gyfansoddwr o Gymro. (Gweler Amod 9). Gwobrau:£300; £200; £100.

**Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru 2026 –27**

**"Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng Mai 2026 a Mai 2027yn rhoi'r hawl i gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol 2027".**

## Cystadlaethau Cartref

## Llên

***Cyn yr Eisteddfod byddai'r Ysgrifennydd Llên yn gwerthfawrogi derbyn amlen A4 wedi'i stampio â stamp addas a'i hunan- gyfeirio, neu gyfeiriad e-bost, gan bob ymgeisydd. Mae'n bosib anfon y gwaith ar e-bost: helencaeffynnon@yahoo.co.uk Ffôn: 01248 714705.***
***Cyfeiriad: Helen Davies, 7 Cae Ffynnon, Llandegfan, Porthaethwy, Ynys Môn LL59 5PR.***

## Cystadleuaeth y Goron

Cerdd neu gyfres o gerddi caeth neu rydd oddeutu 100 llinell (sydd heb fod yn fuddugol yn yr Eisteddfod hon o'r blaen).
Testun**: Ffiniau.**
Gwobr: Coron Arian fechan o waith John Price a £50.
(£50 yn rhodd Cynghorwyr Ward Seiriol - Alun Roberts, Carwyn Jones a Gary Pritchard.)

*Ni chaniateir ennill y Goron fwy na 3 gwaith*.
(Cynhelir y Seremoni tua 7 o'r gloch yr hwyr.)

### Tlws yr Ifanc dan 25 oed

Darn gwreiddiol o lenyddiaeth creadigol (barddoniaeth neu ryddiaith) hyd at 2,000 o eiriau.
Gwobrau: Tlws a £40; £20.
*Ni chaniateir ennill Tlws yr Ifanc fwy na 2 waith.*
(Cynhelir y Seremoni yn ystod sesiwn y prynhawn, tua 2 o'r gloch.)
*{Bydd goreuon Cystadleuaeth Tlws yr Ifanc yn cael eu hanfon i Gystadleuaeth Tlws yr Ifanc Cymdeithas Eisteddfodau Cymru 2027 sydd yn cynnig gwobr o £200. Gweler y poster o fewn y rhaglen.}*

### Barddoniaeth

| | | |
|---|---|---|
| Englyn: **Cwpan y Byd**. | | Gwobr: £10. |
| Telyneg: **Gobaith.** | | Gwobr: £10. |
| Emyn: **Carol Nadolig**. | | Gwobr: £10. |
| Bl.10 ac 11: | Hunanddewisiad. | Gwobrau: £9; £7; £5. |
| Bl.7, 8 a 9: | Hunanddewisiad. | Gwobrau: £7; £5; £4. |
| Bl.5 a 6: | Hunanddewisiad. | Gwobrau: £5; £4; £3. |
| Bl. 3 a 4: | Hunanddewisiad. | Gwobrau: £4; £3; £2. |

### Rhyddiaith

| | | |
|---|---|---|
| Stori Fer: | Agored | Gwobr: £10 . |
| Ysgrif: | Agored | Gwobr: £10. |

Ysgrifennu erthygl addas ar gyfer Papur Bro:
Agored (Dim mwy na 500 gair). Gwobr: £10.

| | | |
|---|---|---|
| Bl.10 ac 11: | Hunanddewisiad. | Gwobrau: £9; £7; £5. |
| Bl.7 i 9: | Hunanddewisiad. | Gwobrau: £7; £5; £4. |
| Bl.5 a 6: | Hunanddewisiad. | Gwobrau: £5; £4; £3. |
| Bl. 3 a 4: | Hunanddewisiad. | Gwobrau:£4; £3; £2. |

### Siaradwyr Newydd/Dysgwyr

Ysgrifennu ar unrhyw ffurf—llythyr, atgof, stori, dyddiadur,erthygl, cerdd
Testun: **Llwybr/Llwybrau.** Gwobr:£10.

## Cystadlaethau Cyfansoddi Cerdd

***Bydd y beirniad yn paratoi beirniadaeth fer ar bob ymgais. Byddai'r Ysgrifennydd Cerdd yn gwerthfawrogi derbyn amlen wedi'i stampio a'i hunan-gyfeirio gyda'r cynnyrch ar gyfer anfon y feirniadaeth. Cyfeiriad: Ann Coleman, 21 Bron Haul, Llandegfan, Ynys Môn LL59 5YF Ffôn 01248 716289 ; e-bost: anndilys.coleman@icloud.com***

***Bydd angen i'r cystadleuwyr ddanfon Copi Caled o'u Cyfansoddiadau. (Gall y cystadleuwyr ddanfon yn ogystal, pe dymunent, recordiad megis pdf, mp3 o'u cyfansoddiadau).***

1. Cyfansoddi darn o gerddoriaeth ar gyfer unrhyw offeryn/llais rhwng 2-5 munud o hyd. Gwobrau: £40, £20.

2. Cyfansoddi Emyn-dôn ar gyfer y geiriau canlynol o eiddo Trefor Huw Jones, enillydd Cystadleuaeth Cyfansoddi Emyn Priodas yn Eisteddfod Llandegfan 2025.
   Gwobrau: £30; £15.

## Emyn Priodas

Gofynnwn am arweiniad taer
Ein Tad sydd yn y nef,
I'r ddau sydd heddiw'n dechrau'r daith,
O seinia neges gref.

Erfyniwn am dy ofal triw,
Ein bugail cynnal ni
Sy'n dystion o'r addewid wnaed
Gan ddau i'th ddilyn di.

Cytgan

Yr Arglwydd ffyddlon yw bob awr
I ddeiliaid daear lawr,
O nertha'r ddau â golau'r dydd
I gynnal fflam y ffydd.

Diolchwn am y fendith hael
A roddodd Crist y Groes,
Tywallta eto'r cariad pur
Sy'n herio rhwyg a loes.

*Trefor Huw Jones,*

## Celf a Llawysgrifen Ysgolion Cynradd

(Cyfyngedig i Ysgolion Ward Seiriol)

Bydd cystadlaethau Celf a Llawysgrifen yn cael eu gosod ar gyfer yr ysgolion hyn a chysylltir yn uniongyrchol â'r ysgolion ynglŷn â'r gofynion. Beirniaid: Angela Ungoed–Hughes a Helen Zalot.

**************************************************

## Sgen ti dalent? (Cystadleuaeth rhif 24).

Ceir 4 munud i ddiddanu'r gynulleidfa trwy ganu, dawnsio, dweud jôcs -unrhyw beth i ddifyru cynulleidfa. Caniatëir 2 funud ychwanegol i osod y llwyfan os oes offer/props yn cael eu def-nyddio. Y beirniaid fydd y beirniaid cerdd a llefaru.

**Amodau**

Rhaid i'r perfformiad fod yn yr iaith Gymraeg neu yn ddi-iaith. Ni chaniatëir i gystadleuwyr berfformio darn a berfformir ganddynt mewn cystadleuaeth arall. Rhaid i'r perfformiad fod yn weddus i gynulleidfa deuluol.






# Er Cof

## Er cof am Alun a Gladys Edwards, Llys Cerdd, Llangefni .

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd yr eisteddfod rodd arbennig o gwpanau eisteddfodol a enillwyd am gystadlu ar ein llwyfannau gan Alun Edwards o Langefni. Ei enw eisteddfodol oedd Cadwaladr. Roedd gan Alun Edwards lais bas cyfoethog tu hwnt a bu'n cystadlu ar yr her Unawd, yr Unawd Gymraeg a'r Oratorio mewn eisteddfodau lleol, y Genedlaethol a Llangollen. Bu hefyd yn diddanu cynulleidfa-oedd ar hyd a lled Cymru, a hynny bob amser gyda'i wraig Gladys yn cyfeilio iddo ar y piano. Bu cerddoriaeth yn rhan bwysig iawn ym mywydau'r ddau ohonynt. Bu farw Alun Edwards bron 30 mlynedd yn ôl ond cadwyd y cwpanau'n ofalus yn dyst i'w lwyddiannau. Wedi marwolaeth ei wraig, dymuniad y teulu oedd rhoi'r cwpanau i eisteddfodau lleol i'w defnyddio. Mae pwyllgor Eisteddfod Llandegfan yn ddiolchgar iawn am y rhodd werthfawr hon.



# AMODAU

1. Cynnyrch y cystadlaethau cartref Llên a Cherddoriaeth i fod yn llaw'r ysgrifenyddion perthnasol erbyn **Dydd Sadwrn, 23 Mai 2026.** Cedwir yr hawl i gyhoeddi'r cynnyrch Llên yn y papur bro lleol.
2. Enwau cystadleuwyr ar y cystadlaethau llwyfan i fod yn llaw'r ysgrifennydd perthnasol erbyn **22 Mehefin 2026.** Wrth roi eu henwau i'r Ysgrifennydd Cerdd dylai cystadleuwyr ar y cystadlaethau Cerdd Dant nodi hefyd y gainc a'r cyweirnod.
3. Rhaid i ymgeiswyr fod o fewn yr oed priodol ar ddiwrnod yr Eisteddfod. Blwyddyn 6 ac iau yw oed Ysgol Gynradd ac iau. Blwyddyn 7-9 a Bl.10 a than 19 oed yw oed Ysgol Uwchradd.
4. Ni chaniatéir cyflwyno'r un darn mewn dwy gystadleuaeth.
5. Ymgeiswyr yng nghystadlaethau'r llwyfan i ofalu bod copi ar gael i'r beirniad a chopi arall i'r cyfeilydd lle bo hynny'n berthnasol.
6. Caniatéir i ymgeiswyr newid cyweirnod ar gyfer eu llais. Dylid rhoi gwybod i'r Ysgrifennydd Cerdd erbyn **22 Mehefin 2026** a gofalu bod copi i'r cyfeilydd.
7. Rhoddir hawl i gystadleuwyr offerynnol a chystadleuwyr yr Unawd Sioe Gerdd ddod â'u cyfeilyddion eu hunain, ond os bydd angen gwasanaeth cyfeilydd swyddogol yr eisteddfod, rhaid anfon copi i'r Ysgrifennydd Cerdd erbyn **22 Mehefin 2026**
8. **Cynhelir rhagbrofion neu ragwrandawiadau yn yr Ysgol Gynradd ar gyfer yr Unawd Agored a'r Her Unawd 4:30 - 6:00 o'r gloch. Bydd angen i'r holl gystadleuwyr gofrestru cyn 4:30 o'r gloch. Ni chaniatéir i unrhyw un ganu ar y llwyfan oni bai ei fod wedi ymddangos yn y rhagbrawf. Rhaid anfon copïau i'r Ysgrifennydd Cerdd erbyn 22 Mehefin 2026.**
9. Os bydd y rhai sy'n cymryd rhan yng nghystadlaethau rhifau 25 a 26 yn prynu eu tocynnau ymlaen llaw, codir pris gostyngol o £3 yr aelod, hyd at yr uchafswm o £80.
10. Bydd barn y beirniad yn derfynol ym mhob adran.
11. Gofynnir i'r beirniad baratoi beirniadaeth ysgrifenedig fer ar bob cystadleuydd/ cystadleuaeth a'i chyflwyno i'r Ysgrifenyddion. Pan draddodir o'r llwyfan, ni roddir ond braslun.
12. Ni fydd Pwyllgor yr Eisteddfod yn gyfrifol am unrhyw ddamwain na cholled a ddigwydd yn ystod neu ynglŷn â'r Eisteddfod.

DIOLCH

Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i'r canlynol am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth i'r Eisteddfod eleni:

Cyngor Cymuned Cwm Cadnant
Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
Cymdeithas Eisteddfodau Cymru
Cyfeillion yr Eisteddfod

EISTEDDFOD
BRO
LLANDEGFAN

Rhif Elusen 506003

Aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru

CHÂTEAU
RHIANFA
YNYS MÔN

Noddir argraffu'r rhaglen gan Château Rhianfa.